PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb

# Data Myfyrwyr

Cyfnod adrodd

Data HESA 1 Awst 2024 – 31 Gorffennaf 2025



## Tabl Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3
Proffil Myfyrwyr ..... 4
Nodwedd gwarchodedig: Rhyw ..... 6
Nodwedd gwarchodedig: Traws ..... 8
Nodwedd gwarchodedig: Cyfeiriadedd rhywiol ..... 10
Nodwedd gwarchodedig: Anabledd ..... 12
Nodwedd gwarchodedig: Ethnigrwydd neu hil ..... 14
Nodwedd gwarchodedig: Crefydd neu gred ..... 16
Nodwedd gwarchodedig: Oed ..... 18
Atodiad: Diffiniadau Data ..... 20


# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr Blynyddol hwn yn cyflwyno gwybodaeth monitro cydraddoldeb ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Bangor, gan ganolbwyntio ar y nodweddion gwarchodedig canlynol a gwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: Oed; Anabledd; Ethnigrwydd neu Hil; Crefydd neu gred; Rhyw; Cyfeiriadedd rhywiol; Traws.

Mae’r data’n seiliedig ar y cofnod myfyrwyr a ddychwelir yn flynyddol i HESA (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) ac mae’n rhoi cipolwg o broffil amrywiaeth myfyrwyr Prifysgol Bangor a oedd wedi cofrestru ar gwrs o fewn y cyfnod adrodd 1 Awst 2024 – 31 Gorffennaf 2025.


# Proffil Myfyrwyr

Mae'r tudalennau hyn yn rhoi proffil myfyrwyr Prifysgol Bangor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024-25, fel cyd-destun ehangach ar gyfer dadansoddi data amrywiaeth. Rhennir y boblogaeth myfyrwyr yn ôl lefel astudio, modd astudio, grŵp domisil, a phwnc.





Roedd cyfran y myfyrwyr israddedig ar duedd ar i lawr dros y cyfnod pum mlynedd rhwng 2018-19-2023-24 (-11% o bwyntiau) ond maent wedi cynyddu 9% o bwyntiau yn y flwyddyn ddiwethaf.

Ar hyn o bryd mae dros saith o bob deg myfyriwr ym Mangor yn astudio ar lefel israddedig. Mae chwarter y myfyrwyr yn astudio ar lefel ôl-raddedig trwy ddysgu. Mae myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wedi gweld gostyngiad o 2% o adroddiad y llynedd.





Roedd 84% o fyfyrwyr yn astudio cyrsiau llawn amser yn 2024-25, uwchlaw cyfartaledd sector y DU o 81%.

Roedd 16% o fyfyrwyr yn astudio rhan-amser yn 2024-25, islaw cyfartaledd sector y DU o 19%.




Roedd gan dros dri chwarter o fyfyrwyr Bangor ddomisil yn y DU, gyda 22% o fyfyrwyr â chyfeiriad parhaol y tu allan i'r DU, ychydig yn is na chyfartaledd y sector o 24%.

O'i gymharu â ffigurau'r llynedd, gostyngodd canran myfyrwyr nad ydynt yn dod o'r DU ym Mangor ychydig o dan 5%. Mae'r gostyngiad mewn myfyrwyr nad ydynt yn dod o'r DU yn dilyn patrymau ledled y sector a effeithiwyd gan newidiadau ym mholisïau mewnfudo llywodraeth y




Mae dros 10% o fyfyrwyr Bangor wedi cofrestru yn y pynciau canlynol:

- Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol
- Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon
- Busnes a Rheolaeth
- Seicole
- Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd


Yr oedd canrannau is (< 2%) wedi cofrestru ar:

- Cyfryngau, NewyddiaduraethEngineering
- Meddygaeth a Deintyddiaeth
- Gwyddorau Cymdeithas
- Archeoleg

Mae Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon wedi cynyddu cyfrannau fwyaf rhwng y blynyddoedd 2018-19 a 2024-25 (+9% pwynt).


Mae Astudiaethau Iaith ac Ardal wedi gostwng cyfrannau fwyaf (-4% pwynt) dros y cyfnod 2018-19 i 2024-25.

# Nodwedd gwarchodedig: Rhyw





Mae chwech o phob deg myfyriwr ym Mangor yn fenywod. Mae hyn yn gyfradd ychydig yn uwch na chyfartaledd y sector y DU o 56% o fyfyrwyr sy'n nodi eu bod yn fenywod.

At ei gilydd, mae'r rhaniad rhwng myfyrwyr benywaidd a gwrywaidd ym Mangor wedi aros ar gyfartaledd o 60% a 40% dros y chwe blynedd diwethaf.





Nid yw cyfrannau'r myfyrwyr sy'n nodi eu hunain fel benywod neu wrywiaid yn amrywio'n sylweddol yn ôl lefel astudio'r myfyrwyr. Mae'r rhai sy'n nodi eu hunain fel rhyw 'arall' yn fach iawn ac yn is nag 1%. Gwrthododd tua 1% o fyfyrwyr ddarparu'r wybodaeth.




Roedd 58% o fyfyrwyr llawn-amser yn fenywod, ychydig yn is na chyfartaledd y Brifysgol.

Roedd myfyrwyr benywaidd yn ffurfio dros 69% o boblogaeth y myfyrwyr rhan-amser. Roedd hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y sector o 62%.

Mae'r ffigur rhan-amser uwch yn cael ei yrru'n bennaf gan bynciau sydd wedi'u dominyddu'n draddodiadol gan fenywod, fel Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol, ac Addysg ac Addysgu.




Arhosodd ffigurau ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn y DU yn gyson ym Mangor dros y cyfnod rhwng 2018-19 a 2024-25.

Roedd 63% o fyfyrwyr Bangor sy'n byw yn y DU yn fenywod. Roedd y ffigur hwn yn uwch na chyfartaledd y sector yn y DU o 58%.

Mewn cyferbyniad, roedd 46% o fyfyrwyr o du allan i'r DU yn fenywod, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y Brifysgol ond yn cyd-fynd â chyfartaledd y sector.

| Pwnc | Benyw | Gwryw | Gwybodaeth ddim ar gael | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig | 52% | 46% | 1% | 1% | 372 |
| Archeoleg | 52% | 48% | 0% | 0% | 56 |
| Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon | 56% | 43% | 1% | 0% | 1564 |
| Busnes a Rheolaeth | 37% | 63% | 0% | 0% | 1536 |
| Cyfrifiadureg | 20% | 77% | 2% | 0% | 411 |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 51% | 45% | 3% | 1% | 257 |
| Addysg ac Addysgu | 79% | 21% | 0% | 0% | 619 |
| Peirianneg | 14% | 86% | 0% | 0% | 149 |
| Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd | 57% | 42% | 1% | 0% | 1364 |
| Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd | 50% | 49% | 1% | 1% | 345 |
| Astudiaethau Iaith ac Ardal | 69% | 28% | 2% | 1% | 362 |
| Y Gyfraith | 56% | 43% | 1% | 0% | 491 |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth | 57% | 43% | 1% | 0% | 115 |
| Meddygaeth a Deintyddiaeth | 77% | 23% | 0% | 0% | 134 |
| Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol | 87% | 13% | 0% | 0% | 1794 |
| Seicoleg | 76% | 23% | 1% | 0% | 1399 |
| Gwyddorau Cymdeithas | 73% | 27% | 0% | 0% | 203 |

* Nid yw'n bosib dangos data am phob pwnc oherwydd niferoedd isel mewn rhai achosion.


- Gwelir cyfrannau uwch (>65%) o fyfyrwyr benywaidd mewn Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Cysylltiedig. Mae cyfrannau hefyd yn uchel mewn Gwyddorau Cymdeithasol, Seicoleg, Meddygaeth a Deintyddiaeth, Astudiaethau Iaith ac Ardal, ac Addysg ac Addysgu.
- Mae cyfrannau uwch o fyfyrwyr gwrywaidd (>60%) mewn Pynciau Peirianneg, Cyfrifiadureg, Busnes a Rheolaeth.

| | DU | | Tu allan i'r DU | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Benyw** | **Gwryw** | **Benyw** | **Gwryw** |
| Amaethyddiaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig | 53.24% | 46.76% | 53.52% | 46.48% |
| Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon | 57.22% | 42.78% | 52.50% | 47.50% |
| Busnes a Rheolaeth | 29.43% | 70.57% | 38.89% | 61.11% |
| Cyfrifiadureg | 20.45% | 79.55% | 21.32% | 78.68% |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 53.23% | 46.77% | 54.35% | 45.65% |
| Addysg ac Addysgu | 78.94% | 21.06% | 81.43% | 18.57% |
| Peirianneg | 15.22% | 84.78% | 12.28% | 87.72% |
| Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd | 56.62% | 43.38% | 64.89% | 35.11% |
| Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd | 50.16% | 49.84% | 61.11% | 38.89% |
| Astudiaethau Iaith ac Ardal | 72.39% | 27.61% | 64.71% | 35.29% |
| Y Gyfraith | 58.96% | 41.04% | 49.63% | 50.37% |
| Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol | 88.71% | 11.29% | 75.42% | 24.58% |
| Seicoleg | 77.57% | 22.43% | 71.25% | 28.75% |
| Gwyddorau Cymdeithas | 77.58% | 22.42% | 54.05% | 45.95% |

Wrth gymharu myfyrwyr o'r DU â myfyrwyr tu allan i'r DU, mae newidiadau canrannol nodedig (>10%) yn bresennol yn y pynciau canlynol:


- Busnes a Rheolaeth, lle mae canran y myfyrwyr benywaidd yn uwch ymhlith myfyrwyr tu allan i'r DU.
- Gwyddorau Cymdeithasol, lle mae canran y myfyrwyr gwrywaidd yn cynyddu ar gyfer myfyrwyr tu allan i'r DU.
- Ar gyfer Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol, mae cyfran y myfyrwyr gwrywaidd yn cynyddu ar gyfer myfyrwyr tu allan i'r DU.
- Mae astudiaethau Hanesyddol, Athronyddol a Chrefyddol yn gweld cynnydd o 11% mewn myfyrwyr benywaidd ymhlith myfyrwyr tu allan i'r DU.
- Ar gyfer y Gyfraith, mae myfyrwyr tu allan i'r DU yn gweld cyfran y myfyrwyr gwrywaidd yn cynyddu ychydig o dan 10% o'i gymharu â myfyrwyr y DU.

# Nodwedd gwarchodedig: Traws





Roedd 94% o fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn uniaethu â'r un rhyw â'r hyn a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth. Roedd 3% yn uniaethu â rhyw gwahanol, ac roedd 3% o fyfyrwyr yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn.

Ychydig iawn o symudiad sydd wedi bod yn ffigurau Bangor ar gyfer hunaniaeth rhywedd dros chwe blynedd.





Pan gaiff y data ei ddadansoddi yn ôl lefel astudio, mae patrymau gwahanol yn dod yn amlwg. Roedd cyfrannau uwch o fyfyrwyr israddedig yn uniaethu â rhyw gwahanol i'r hyn a neilltuwyd iddynt wrth eu geni o'u cymharu â myfyrwyr sy'n astudio ar lefel ôl-raddedig.

Roedd 97% o fyfyrwyr ôl-raddedig trwy ddysgu yn uniaethu â'r un rhyw â'r hyn a neilltuwyd iddynt wrth eu geni, uwchlaw cyfartaledd y Brifysgol, ac 1% yn uniaethu â rhyw gwahanol. Roedd cyfrannau is o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn uniaethu â rhyw gwahanol i'r hyn a neilltuwyd iddynt wrth eu geni (islaw 1%).




Roedd 4% o fyfyrwyr llawn amser yn uniaethu â rhywedd gwahanol, o'i gymharu â 2% o fyfyrwyr rhan-amser.




Roedd gan lefelau uwch o fyfyrwyr y DU hunaniaeth rhywedd wahanol (4%) o'i gymharu â myfyrwyr tu allan i'r DU (1%).


O'i gymharu â'r llynedd, roedd cynnydd bach mewn myfyrwyr trawsryweddol ar gyfer myfyrwyr y DU, gan fynd o 3% i 4%.

| Pwnc | Yr yn fath â rhywedd a neilltuwyd adeg geni | Gwahanol i rywedd a neilltywyd adeg geni | Gwell beidio â dweud | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig | 89.52% | 5.38% | 5.11% | 372 |
| Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon | 90.03% | 6.39% | 3.58% | 1564 |
| Busnes a Rheolaeth | 96.55% | 1.43% | 2.02% | 1536 |
| Cyfrifiadureg | 91.00% | 3.89% | 5.11% | 411 |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 90.27% | 4.67% | 5.06% | 257 |
| Addysg ac Addysgu | 97.09% | 1.29% | 1.62% | 619 |
| Peirianneg | 95.30% | 0.67% | 4.03% | 149 |
| Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd | 91.06% | 4.91% | 4.03% | 1364 |
| Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd | 88.70% | 6.38% | 4.93% | 345 |
| Astudiaethau Iaith ac Ardal | 87.02% | 6.63% | 6.35% | 362 |
| Y Gyfraith | 96.33% | 1.83% | 1.83% | 491 |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth | 89.57% | 6.96% | 3.48% | 115 |
| Meddygaeth a Deintyddiaeth | 96.27% | 1.49% | 2.24% | 134 |
| Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol | 98.38% | 0.78% | 0.84% | 1794 |
| Seicoleg | 94.28% | 3.22% | 2.50% | 1399 |
| Gwyddorau Cymdeithas | 95.57% | 2.96% | 1.48% | 203 |


* Nid yw'n bosib dangos data am phob pwnc oherwydd niferoedd isel mewn rhai achosion.

Roedd lefelau myfyrwyr yn uniaethu â rhywedd gwahanol i'r un a neilltuwyd iddynt adeg eu geni yn gymharol uchel yn y pynciau canlynol (>%):

- Astudiaethau iaith ac ardal
- Gwyddorau biolegol a chwaraeon
- Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol
- Y Cyfryngau a Newyddiaduraeth





Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn nodi eu hunain fel strêt neu heterorywiol, sef 70% gyda 13% yn dewis peidio â darparu'r wybodaeth. Nododd 11% eu bod yn ddeurywiol, gyda chyfrannau is yn nodi eu hunain fel hoyw neu lesbiaidd, neu gyfeiriadedd rhywiol arall. Ychydig iawn o symudiad sydd wedi bod yn ffigurau Bangor dros y chwe blynedd diwethaf.




Roedd 65% o fyfyrwyr israddedig yn nodi eu hunain fel strêt neu heterorywiol. Roedd 12% yn ddeurywiol, a 4% yn nodi eu hunain gyda chyfeiriadedd rhywiol arall, ffigurau uwch na chyfartaledd y brifysgol.


Roedd lefelau uwch o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn strêt neu heterorywiol, gyda niferoedd sylweddol is yn nodi eu hunain fel deurywiol, hoyw neu lesbiaidd, neu fel arall.

Roedd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig strêt neu heterorywiol ychydig uwchlaw cyfartaledd y brifysgol, gydag ychydig llai yn nodi eu hunain fel deurywiol, a lefelau ychydig yn uwch o fyfyrwyr hoyw neu lesbiaidd.




Roedd 67% o fyfyrwyr llawn-amser yn strêt neu heterorywiol, ychydig islaw cyfartaledd y brifysgol, gyda chyfrannau uwch o fyfyrwyr deurywiol (11%), a ffigurau tebyg ar gyfer hoyw neu lesbiaidd, neu eraill.

Nododd dros 80% o fyfyrwyr rhan-amser eu bod yn strêt neu heterorywiol, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y Brifysgol. Roedd ganddynt lefelau is o fyfyrwyr deurywiol (5%) a ffigurau tebyg ar gyfer hoyw neu lesbiaidd.




Nododd 68% o fyfyrwyr y DU eu bod yn strêt neu heterorywiol, ychydig islaw cyfartaledd y Brifysgol. Ymatebodd dros 10% eu bod yn ddeurywiol. Roedd myfyrwyr oedd yn hoyw neu'n lesbiaidd a chyfeiriadau rhywiol eraill yn weddol isel.


Roedd 71% o fyfyrwyr y tu allan i'r DU yn strêt neu heterorywiol, uwchlaw cyfartaledd y Brifysgol, a lefelau uwch na ffigurau'r llynedd (67%). Nododd lefelau is eu bod yn ddeurywiol, hoyw neu lesbiaidd, neu gyfeiriadeddau rhywiol eraill. Dewisodd cyfran sylweddol beidio ag ateb y cwestiwn.

| Pwnc | Strêt neu heterorywiol | Gwell beidio â dweud | Deurywiol | Hoyw neu lesbiaidd | Cyfeiriadedd rhywiol arall | Cyfanswm myfyrwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cys | 60.75% | 16.67% | 13.17% | 4.57% | 4.84% | 372 |
| Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon | 58.89% | 13.11% | 16.88% | 5.69% | 5.43% | 1564 |
| Busnes a Rheolaeth | 76.43% | 17.32% | 4.17% | 0.72% | 1.37% | 1536 |
| Cyfrifiadureg | 67.15% | 16.30% | 10.95% | 2.43% | 3.16% | 411 |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfform | 58.75% | 15.18% | 14.79% | 5.45% | 5.84% | 257 |
| Addysg ac Addysgu | 80.45% | 9.05% | 7.27% | 1.78% | 1.45% | 619 |
| Peirianneg | 76.51% | 14.77% | 6.04% | 2.01% | 0.67% | 149 |
| Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd | 60.19% | 15.10% | 15.32% | 3.74% | 5.65% | 1364 |
| Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd | 54.49% | 16.81% | 15.94% | 4.64% | 8.12% | 345 |
| Astudiaethau Iaith ac Ardal | 53.87% | 19.34% | 12.98% | 6.63% | 7.18% | 362 |
| Y Gyfraith | 76.58% | 13.03% | 5.91% | 3.26% | 1.22% | 491 |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth | 63.48% | 10.43% | 20.87% | 0.87% | 4.35% | 115 |
| Meddygaeth a Deintyddiaeth | 79.85% | 7.46% | 6.72% | 4.48% | 1.49% | 134 |
| Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol | 85.28% | 7.02% | 4.35% | 2.51% | 0.84% | 1794 |
| Seicoleg | 67.83% | 11.08% | 11.65% | 5.72% | 3.72% | 1399 |
| Gwyddorau Cymdeithas | 65.02% | 13.79% | 13.79% | 3.94% | 3.45% | 203 |

* Nid yw'n bosib dangos data am phob pwnc oherwydd niferoedd isel mewn rhai achosion.

- Roedd cyfrannau uchel o fyfyrwyr (>16%) yn nodi eu hunain fel deurywiol yn y pynciau canlynol: Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon, a'r Cyfryngau a Newyddiaduraeth.
- Roedd myfyrwyr yn nodi eu hunain fel hoyw neu lesbiaidd ar eu huchaf (>5%) mewn Astudiaethau Iaith ac Ardal, Seicoleg, Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon, Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio. Roedd cyfrannau'n gymharol isel yn y rhan fwyaf o achosion.
- Roedd myfyrwyr a nododd eu hunain fel cyfeiriadedd rhywiol arall hefyd yn gyffredinol isel yn y rhan fwyaf o bynciau. Roeddent ar eu huchaf (>7%) mewn Astudiaethau Iaith ac Ardal, a Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd.
- Roedd myfyrwyr strêt neu heterorywiol yn gyffredinol uchel o ran cyfran, ac yn arbennig o uchel (>80%) mewn Pynciau Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol, a Addysg ac Addysgu. Syrthiodd y gyfran isaf o fyfyrwyr strêt neu heterorywiol (<55%) mewn Astudiaethau Iaith ac Ardal, a Astudiaethau Hanesyddol, Athronyddol a Chrefyddol.


# Nodwedd gwarchodedig: Anabledd




Datgelodd 30% o fyfyrwyr ym Mangor anabledd. Roedd hyn yn gynnydd mawr o'i gymharu â 25% y llynedd.


Mae cyfradd datgelu anabledd ym Mangor wedi cynyddu 6% dros y chwe blynedd diwethaf.

Roedd ffigurau Bangor yn llawer uwch na chyfartaledd y sector yn y DU, lle dim ond 19% o fyfyrwyr a ddatgelodd anabledd.




Roedd gan dros draean o fyfyrwyr israddedig anabledd, sy'n uwch na chyfartaledd y Brifysgol ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd y sector y DU o 21%. Gwelodd myfyrwyr israddedig Bangor gynnydd mewn anabledd o'i gymharu â 25% y llynedd.


Datgelodd 16% o fyfyrwyr ôl-raddedig trwy ddysgu anabledd o'i gymharu â 25% o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Wrth edrych ar gyfartaleddau'r sector yn y DU ar gyfer anableddau a ddatgelwyd, roedd gan 12% o fyfyrwyr ôl-raddedig trwy ddysgu anabledd, a 19% o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig




Datgelodd 31% o fyfyrwyr llawn amser anabledd, sy'n uwch na chyfartaledd y DU o 19%.

Roedd gan lawer llai o fyfyrwyr rhan-amser anabledd, sef 23%, yn unol â chyfartaledd y sector o 21%.

Gwelodd myfyrwyr anabl llawn amser a rhan-amser gynnydd o 5% a 2% yn y drefn honno o'i gymharu â ffigurau'r llynedd.




Roedd gan fyfyrwyr y DU gyfradd ddatgelu anabledd arbennig o uchel, sef 36%. Roedd hyn yn gynnydd o 4% yn erbyn y llynedd.

Cyfartaledd y sector DU ar gyfer myfyrwyr yn datgelu anabledd oedd 23%, sy'n sylweddol is na chyfraddau Bangor.

Roedd cyfraddau anabledd ar gyfer myfyrwyr tu allan i'r DU ym Mangor yn isel, sef 8%. Fodd bynnag, roedd hyn yn cyd-fynd â chyfartaledd y sector DU o 7%.

Gostyngodd cyfraddau anabledd Bangor tu allan i'r DU 10% rhwng y cyfnod 2018-19 a 2024-25.

| Pwnc | Dim anabledd | Anabledd | Cyfanswm myfyrwyr |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysyllti | 61.02% | 38.98% | 372 |
| Archeoleg | 50.00% | 50.00% | 56 |
| Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon | 57.48% | 42.52% | 1564 |
| Busnes a Rheolaeth | 91.80% | 8.20% | 1536 |
| Cyfrifiadureg | 69.83% | 30.17% | 411 |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 61.09% | 38.91% | 257 |
| Addysg ac Addysgu | 74.80% | 25.20% | 619 |
| Peirianneg | 82.55% | 17.45% | 149 |
| Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd | 59.46% | 40.54% | 1364 |
| Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd | 57.97% | 42.03% | 345 |
| Astudiaethau Iaith ac Ardal | 60.77% | 39.23% | 362 |
| Y Gyfraith | 81.06% | 18.94% | 491 |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth | 66.96% | 33.04% | 115 |
| Meddygaeth a Deintyddiaeth | 71.64% | 28.36% | 134 |
| Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol | 75.59% | 24.41% | 1794 |
| Seicoleg | 62.69% | 37.31% | 1399 |
| Gwyddorau Cymdeithas | 71.92% | 28.08% | 203 |

* Nid yw'n bosib dangos data am phob pwnc oherwydd niferoedd isel mewn rhai achosion.


Gwelwyd cyfraddau uchel o anabledd datgeledig o 35% neu uwch yn y pynciau canlynol:

- Archaeoleg
- Gwyddorau Biolegol a Chwaraeo
- Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio
- Daearyddiaeth ac Astudiaethau Amgylcheddol,
- Hanes, athroniaeth a chrefydd
- Astudiaethau iaith ac ardal
- Seicoleg.

Gwelwyd cyfraddau anabledd arbennig o isel mewn:


- Busnes a rheolaeth (8.2%); mae marchnad ryngwladol gref ar gyfer y pwnc hwn, ac mae'r ffigur o 8% yn cyd-fynd â'r gyfradd gyffredinol ar gyfer myfyrwyr y tu allan i'r DU.
- Peirianneg oedd â'r ail gyfradd anabledd isaf sef 17%.
- Yr oedd gan Y Gy
- fraith chyfradd anabledd isel sef 19%.

# Nodwedd gwarchodedig: Ethnigrwydd neu hil





Mae ffigurau ethnigrwydd Bangor wedi aros yn gymharol gyson rhwng y cyfnod 2018-19 a 2024-25.

Nododd 9% o fyfyrwyr Bangor eu bod yn lleiafrifoedd ethnig. Roedd hyn yn sylweddol is na chyfartaledd y sector yn y DU o 31% o fyfyrwyr lleiafrifoedd ethnig.




Roedd y gyfran uchaf o fyfyrwyr a oedd yn nodi eu bod yn grwpiau ethnig lleiafrifol yn astudio ar lefel israddedig, sy'n cyd-fynd â chyfartaledd y Brifysgol o 9%.

Roedd 9% o fyfyrwyr ôl-raddedig drwy ddysgu, ac 8% o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ym Mangor yn nodi eu bod yn ethnig lleiafrifol. Nid yw'r ffigurau hyn wedi newid yn sylweddol ers 2018-19.




Ychydig o wahaniaeth oedd rhwng cyfrannau'r myfyrwyr llawn-amser a rhan-amser a nododd eu bod yn lleiafrifoedd ethnig (9%), ac roedd y ddwy lefel astudio yn cyd-fynd â chyfartaledd y Brifysgol.

Mae sector y DU yn dangos gwahaniaethau sylweddol. Nododd 65% a 74% o fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser eu bod yn wyn, yn y drefn honno.


| Pwnc | Gwyn | Lleiafrifoedd ethnig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig | 93.22% | 6.78% | 295 |
| Archeoleg | 98.04% | 1.96% | 51 |
| Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon | 92.37% | 7.63% | 1429 |
| Busnes a Rheolaeth | 81.76% | 18.24% | 329 |
| Cyfrifiadureg | 86.04% | 13.96% | 265 |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 91.67% | 8.33% | 204 |
| Addysg ac Addysgu | 97.04% | 2.96% | 540 |
| Peirianneg | 93.26% | 6.74% | 89 |
| Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd | 90.98% | 9.02% | 1208 |
| Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd | 96.55% | 3.45% | 319 |
| Astudiaethau Iaith ac Ardal | 88.59% | 11.41% | 298 |
| Y Gyfraith | 93.33% | 6.67% | 345 |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth | 91.49% | 8.51% | 94 |
| Meddygaeth a Deintyddiaeth | 77.68% | 22.32% | 112 |
| Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol | 94.46% | 5.54% | 1589 |
| Seicoleg | 88.19% | 11.81% | 1211 |
| Gwyddorau Cymdeithas | 94.48% | 5.52% | 163 |

* Nid yw'n bosib dangos data am phob pwnc oherwydd niferoedd isel mewn rhai achosion.


Y pynciau gyda'r ganran uchaf o fyfyrwyr lleiafrifoedd ethnig (>10%) oedd:

- Meddygaeth a Deintyddiaeth
- Busnes a Rheolaeth
- Cyfrifiadureg
- Astudiaethau Iaith ac Ardal
- Seicoleg

# Nodwedd gwarchodedig: Crefydd neu gred





Dewisodd dros hanner myfyrwyr Bangor ddim crefydd, llawer uwch na chyfartaledd y sector yn y DU o 44%. Dewisodd 22% Gristnogaeth a dewisodd 7% Fwslimiaeth, sy'n is na chyfartaleddau'r sector o 30% a 14% yn y drefn honno.




Myfyrwyr israddedig oedd â'r lefelau uchaf o beidio â chael crefydd (61%), yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r sector o 46%.


Ym Mangor, myfyrwyr ôl-raddedig drwy ddysgu oedd â'r ganran uchaf o Gristnogion (28%) yn ogystal â'r ganran uchaf o Fwslimiaid a Hindŵiaid, sef 13% a 10% yn y drefn honno.




Nid oedd gan dros hanner y myfyrwyr llawn amser a rhan-amser unrhyw grefydd, sy'n cyd-fynd â chyfartaledd y Brifysgol.

Roedd gan fyfyrwyr rhan-amser Bangor ganrannau uwch o Gristnogion na myfyrwyr llawn-amser o dros 10%. Roedd gan fyfyrwyr llawn amser Bangor ganran amlwg uwch mewn crefyddau Mwslimaidd a Hindŵaidd.

Ar draws y sector, roedd 29% o Gristnogion a 16% o Fwslimiaid yn ffurfio poblogaethau llawn amser, yn amlwg yn uwch na niferoedd Bangor.




Roedd gan fyfyrwyr Bangor yn y DU lefelau llawer uwch o fyfyrwyr yn nodi eu bod yn anghrefyddol, o'i gymharu â myfyrwyr o'r tu allan i'r DU.

Roedd gan fyfyrwyr Bangor o'r tu allan i'r DU 25% yn fwy o fyfyrwyr Mwslimaidd na'r cyfwerth yn y DU. Roedd myfyrwyr Hindŵaidd hefyd yn sylweddol uwch o ran myfyrwyr o'r tu allan i'r DU.


O'i gymharu â chyfartaledd y sector DU, roedd myfyrwyr Cristnogol yn y DU yn cyfrif am 33% o'r boblogaeth o'i gymharu â 22% ym Mangor. Nododd 47% o'r sector DU nad oedd ganddynt unrhyw grefydd, llawer is na chyfartaledd Bangor o 63%.

| Pwnc | Dim crefydd | Cristion | Gwell beidio â dweud | Mwslemaidd | Hindw | Unthyw grefydd neu gred arall | Bwdhaidd | Sikh | Iddewig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig | 61.29% | 14.25% | 13.17% | 3.23% | 2.69% | 4.84% | 0.54% | 0.00% | 0.00% | 372 |
| Archeoleg | 66.07% | 19.64% | 8.93% | 0.00% | 0.00% | 3.57% | 0.00% | 0.00% | 1.79% | 56 |
| Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon | 70.33% | 15.09% | 7.61% | 1.92% | 0.96% | 3.52% | 0.51% | 0.00% | 0.06% | 1564 |
| Busnes a Rheolaeth | 31.25% | 19.92% | 3.58% | 21.68% | 19.53% | 0.52% | 1.63% | 1.89% | 0.00% | 1536 |
| Cyfrifiadureg | 47.69% | 19.95% | 8.52% | 13.14% | 6.33% | 2.68% | 0.24% | 1.46% | 0.00% | 411 |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 62.65% | 22.57% | 8.56% | 0.78% | 0.39% | 3.50% | 1.56% | 0.00% | 0.00% | 257 |
| Addysg ac Addysgu | 54.44% | 31.83% | 4.04% | 6.30% | 1.13% | 1.94% | 0.32% | 0.00% | 0.00% | 619 |
| Peirianneg | 36.91% | 20.13% | 10.07% | 27.52% | 3.36% | 1.34% | 0.67% | 0.00% | 0.00% | 149 |
| Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd | 69.72% | 14.88% | 7.99% | 1.25% | 1.47% | 3.59% | 0.81% | 0.07% | 0.22% | 1364 |
| Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd | 55.94% | 26.09% | 9.28% | 0.58% | 0.29% | 5.80% | 1.16% | 0.00% | 0.87% | 345 |
| Astudiaethau Iaith ac Ardal | 47.24% | 25.41% | 13.81% | 7.73% | 1.10% | 4.14% | 0.00% | 0.28% | 0.28% | 362 |
| Y Gyfraith | 50.31% | 24.64% | 8.55% | 13.24% | 0.81% | 1.43% | 0.61% | 0.41% | 0.00% | 491 |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth | 54.78% | 21.74% | 13.91% | 6.09% | 0.00% | 2.61% | 0.00% | 0.00% | 0.87% | 115 |
| Meddygaeth a Deintyddiaeth | 49.25% | 29.10% | 3.73% | 11.19% | 2.24% | 3.73% | 0.00% | 0.75% | 0.00% | 134 |
| Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol | 56.35% | 31.10% | 5.57% | 3.12% | 1.51% | 1.56% | 0.50% | 0.17% | 0.11% | 1794 |
| Seicoleg | 56.40% | 22.16% | 9.44% | 3.79% | 2.29% | 3.65% | 1.72% | 0.36% | 0.21% | 1399 |
| Gwyddorau Cymdeithas | 60.10% | 18.72% | 5.42% | 10.34% | 0.99% | 2.96% | 0.99% | 0.49% | 0.00% | 203 |

* Nid yw’n bosib dangos data am phob pwnc oherwydd niferoedd isel mewn rhai achosion.


- Nododd dros 70% o fyfyrwyr mewn gwyddorau biolegol a chwaraeon nad oedd ganddynt unrhyw gred grefyddol. Roedd yr ail gyfran uchaf o fyfyrwyr anghrefyddol yn disgyn i Ddaearyddiaeth, astudiaethau Daear ac Amgylcheddol.
- Roedd cyfrannau'r myfyrwyr a oedd yn uniaethu fel Cristnogion yn uwch na 20% mewn 10 pwnc allan o 16.
- Roedd cyfrannau'r myfyrwyr a oedd yn uniaethu â'r grefydd Hindŵaidd yn arbennig o uchel (19%) mewn Busnes a rheolaeth.
- Roedd dros 20% o fyfyrwyr yn Fwslimiaid mewn Peirianneg a Busnes a rheolaeth. Roedd ganddynt niferoedd uchel hefyd mewn Cyfrifiadureg a'r Gyfraith.
- Roedd myfyrwyr a oedd yn uniaethu â chrefyddau neu gredoau Sikh neu Fwdhaidd yn arbennig o isel ar draws y rhan fwyaf o bynciau, ar gyfartaledd 1%.
- Roedd myfyrwyr a oedd yn uniaethu â'r grefydd Iddewig yn isel ar draws pob pwnc, ar gyfartaledd 0.2%.

# Nodwedd gwarchodedig: Oed





Diffinwyd 60% o fyfyrwyr ym Mangor fel myfyrwyr ifanc, cynnydd o 7% o'i gymharu â'r llynedd.

Nododd 40% eu bod yn hŷn, gostyngiad o 7% o'i gymharu â'r llynedd.





Mae'r cyfrannau uchaf o fyfyrwyr hŷn yn astudio ar lefel ôl-raddedig trwy ddysgu ac ymchwil, ac mae 74% yn sylweddol uwchlaw cyfartaledd y Brifysgol. Mae 25% o fyfyrwyr israddedig yn hŷn, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y Brifysgol.

Mae'r niferoedd wedi aros yn debyg o'u cymharu â ffigurau o adroddiad 2023-24.




Fel y gellid disgwyl efallai, mae cyfrannau uchel iawn o fyfyrwyr rhan-amser (90%) yn y categori oedran hŷn. Ar gyfer myfyrwyr llawn-amser, mae hyn yn gostwng i 31%. Fodd bynnag, roedd hwn yn ostyngiad mawr dros bron i 7% o'i gymharu â ffigurau'r llynedd.




Mae dros draean o fyfyrwyr y DU yn hŷn, sydd yn is na chyfartaledd y Brifysgol, a 6% yn is na niferoedd y llynedd. Mae 56% o fyfyrwyr o tu allain i'r DU yn hŷn, sy'n sylweddol uwchlaw cyfartaledd y Brifysgol. Roedd hyn hefyd yn ostyngiad o 61% y llynedd.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr hŷn o tu allan i'r DU yn astudio ar lefelau ôl-raddedig trwy ddysgu, gyda llawer yn astudio ar gyfer meistr dysgu o bell neu gymhwyster MBA mewn pynciau busnes.

| Pwnc | Israddedig | | | Ôlraddedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ifanc | Hŷn | Cyfanswm | Ifanc | Hŷn | Cyfanswm |
| Amaethyddiaeth, Bwyd ac Astudiaethau Cysylltiedig | 79.51% | 20.49% | 205 | 17.37% | 82.63% | 167 |
| Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon | 87.51% | 12.49% | 1449 | 56.52% | 43.48% | 115 |
| Busnes a Rheolaeth | 64.09% | 35.91% | 855 | 32.16% | 67.84% | 681 |
| Cyfrifiadureg | 68.52% | 31.48% | 305 | 33.02% | 66.98% | 106 |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 85.92% | 14.08% | 206 | 47.06% | 52.94% | 51 |
| Addysg ac Addysgu | 78.45% | 21.55% | 232 | 28.17% | 71.83% | 387 |
| Peirianneg | 41.94% | 57.26% | 124 | 40.00% | 60.00% | 25 |
| Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd | 87.83% | 12.17% | 1200 | 40.85% | 59.15% | 164 |
| Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd | 88.58% | 11.42% | 289 | 41.07% | 58.93% | 56 |
| Astudiaethau Iaith ac Ardal | 81.16% | 18.84% | 292 | 35.71% | 64.29% | 70 |
| Y Gyfraith | 56.63% | 43.37% | 415 | 14.47% | 85.53% | 76 |
| Meddygaeth a Deintyddiaeth | 65.71% | 34.29% | 105 | 37.93% | 62.07% | 29 |
| Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol | 37.29% | 62.71% | 1180 | 15.96% | 84.04% | 614 |
| Seicoleg | 81.34% | 18.66% | 793 | 13.53% | 86.47% | 606 |
| Gwyddorau Cymdeithas | 80.00% | 20.00% | 150 | 33.96% | 66.04% | 53 |

* Nid yw'n bosib dangos data am phob pwnc oherwydd niferoedd isel mewn rhai achosion.

Y cyrsiau israddedig gyda'r lefel uchaf o fyfyrwyr hŷn (>40%) oedd:

- Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd Perthynol
- Y Gyfrait
- Peirianneg

Y cyrsiau ôl-raddedig gyda'r ganran uchaf o fyfyrwyr ifanc (>40%) oedd:

- Gwyddorau Biolegol a Chwaraeon
- Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio
- Peirianneg
- Daearyddiaeth, Daearyddiaeth ac Amgylchedd
- Hanesyddol, Athronyddol a Chrefydd

# Atodiad: Diffiniadau Data

**1. Rhyw**

Mae data am ryw myfyrwyr yn cael ei ddychwelyd i HESA gyda'r opsiynau posibl 'Gwryw', 'Benyw' ac 'Arall'.

**2. Traws**

Caiff data ar hunaniaeth rhywedd myfyrwyr ei ddychwelyd i HESA ac mae'n seiliedig ar hunanasesiad y myfyriwr ei hun o ran nodi a yw ei hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd iddo'n wreiddiol adeg ei eni.

**3. Cyfeiriadedd rhywiol**

Mae data ar gyfeiriadedd rhywiol myfyrwyr yn cael ei ddychwelyd i HESA, ac mae'n seiliedig ar hunanasesiad y myfyriwr ei hun, gyda'r opsiynau posibl 'Deurywiol', 'Hoyw neu lesbiaidd', 'Strêt neu Heterorywiol', ac 'Arall'.

**4. Anabledd**

Defnyddir y term myfyrwyr 'anabl' yma i gyfeirio at fyfyrwyr sydd wedi datgelu bod ganddynt anabledd, a bennir gan eu hunanasesiad eu hunain. Defnyddir y term myfyrwyr hefo 'dim anabledd' i gyfeirio at fyfyrwyr sydd ddim wedi datgelu anabledd, neu y mae eu statws anabledd yn anhysbys i'r sefydliad.

**5. Ethnigrwydd neu hil**

Mae HESA yn casglu'r data hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn y DU yn unig ac yn seiliedig ar eu hunanasesiad; am y rheswm hwn, nid yw'n bosibl cyflwyno'r wybodaeth ar gyfer myfyrwyr y tu allan i'r DU. Yn y data a gasglwyd, daeth llawer iawn o atebion 'ddim yn berthnasol neu ddim yn hysbys' gan fyfyrwyr y tu allan i'r DU lle nad yw data ethnigrwydd yn cael ei gasglu'n rheolaidd. Am y rheswm hwn, bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar fyfyrwyr yn y DU yn unig.

Rydym wedi defnyddio ffigurau crynodedig i grwpio myfyrwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig at ddibenion yr adroddiad hwn er mwyn osgoi golygu niferoedd bach. Fel rhan o'n gwaith Siarter Cydraddoldeb Hiliol, rydym yn cydnabod bod sawl problem yn gynhenid wrth grwpio unigolion i gategorïau mwy yn y ffordd hon, ac rydym yn cydnabod bod y derminoleg 'BAME' yn broblemus; rydym yn defnyddio'r term 'lleiafrifoedd ethnig' i gynrychioli myfyrwyr o grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn yn yr adroddiad hwn.

**6. Crefydd neu gred**

Caiff data ar gred grefyddol myfyrwyr ei ddychwelyd i HESA, ac mae'n seiliedig ar hunanasesiad y myfyriwr ei hun, gyda'r opsiynau posibl o 'Bwdhaidd', 'Cristnogol', 'Hindŵaidd', 'Iddewig', 'Mwslimaidd', 'Sicaidd', 'Dim crefydd' a 'Chrefydd Arall'

**7. Grŵp oedran**

Caiff data ar oedran myfyrwyr ar y pwynt mae nhw'n dechrau ar eu cwrs ei ddychwelyd i HESA, ac mae hyn ein galluogi i grwpio yr oedran.

Noder bod diffiniadau HESA o fyfyrwyr ifanc ac hŷn yn amrywio yn ôl lefel astudio:

Israddedigion:

- Ifanc: myfyrwyr o dan 21 oed ar ddechrau'r cwrs gradd
- Hŷn: myfyrwyr 21 oed neu hŷn ar ddechrau'r cwrs gradd

Ôl-raddedigion:

- Ifanc: myfyrwyr o dan 25 oed ar ddechrau'r cwrs gradd
- Hŷn: myfyrwyr 25 oed neu hŷn ar ddechrau'r cwrs gradd

**Nodyn ar Pynciau ym Mangor**

Mae'r cyrsiau y mae myfyrwyr wedi cofrestru arnynt wedi'u categoreiddio yn ôl pynciau. Mae'r categoreiddio pynciau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar fframwaith codio Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS), a ddatblygwyd a'i reoli gan HESA i ddarparu dull cyson o ddosbarthu pynciau cenedlaethol. Mae codau pwnc HECoS wedi'u grwpio yn ôl Hierarchaeth Agregu Gyffredin (CAH), o lefel uchel (CAH1) i lefel fwy manwl (CAH3). Mae'r pynciau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar CAH1.